# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol ~ Weekly Newsletter

**05.06.26**




## Mabolgampau! ~ Sports Day!

Roedd Dydd Mercher yn ddiwrnod hyfryd iawn i gymuned ysgol Gwaelod y Garth wrth i ni gynnal Mabolgampau blynyddol yr ysgol. Roedd yr achlysur yn un arbennig unwaith eto eleni, gyda phob disgybl yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau ac yn manteisio ar bob cyfle. Roeddem mor falch o bob un o'n disgyblion, gyda phawb yn herio eu hunain i'r eithaf, ar eu gorau ac hefyd yn cefnogi a dathlu llwyddiannau ei gilydd. Llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu hymdrechion ac i'r rhai a ddaeth i'r brig - mae yma athletwyr cryf a chyflym yn sicr!

Hyfryd oedd gweld cymaint o deuluoedd cefnogi ein Mabolgampau ac yn amlwg yn mwynhau. Diolch i chi! Diolch hefyd i'r holl staff, o dan arweiniad trefnus Mr Williams a Mrs Darch, am eu gwaith paratoi trylwyr ac am sicrhau rhediad llyfn y dydd - hynod slic! Rydym eto yn hynod ddiolchgar i'r GRhA am dalu costau bysiau i allu cludo'r ysgol gyfan draw i Met Caerdydd. Diolch bawb ❤

Ddoe, cafodd ddosbarthiadau 1C, 1E a 2C brofiad hyfryd yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn dysgu am fywyd yng Nghymru yn Oes y Celtiaid ac Oes Fictoria. Hyfryd yw gweld y plant yn mwynhau tra'n dysgu am hanes Cymru mewn ffordd mor fyw. Mae'r lluniau (isod) yn dystiolaeth i'r mwynhau yn sicr!

Wrth i ni edrych ymlaen at weddill y tymor, cofiwch am ein Ffair Haf a fydd yn cael ei chynnal ar Ddydd Gwener Mehefin 19. Digwyddiad cymunedol hyfryd arall i ni fwynhau gyda'n gilydd!

●☆●☆●☆●☆●☆●☆

Wednesday was a wonderful day for our Gwaelod y Garth school community as we held our school's annual Mabolgampau (Sports Day). It was a special occasion again this year, with all pupils taking part in a variety of activities and taking advantage of every opportunity. We were so proud of all our pupils, with everyone challenging themselves to the full, being at their best and also supporting and celebrating each other's achievements. Congratulations to everyone on their efforts and to those who came out on top - there are strong and fast athletes here for sure!

It was lovely to see so many families supporting our Mabolgampau and clearly enjoying the occasion. Diolch! Diolch to all our staff, led by the organised Mr Williams and Mrs Darch, for their thorough preparation and for ensuring the smooth running of the day – slick indeed! We are again extremely grateful to the PTA for covering the cost of buses to be able to transport the whole school over to Cardiff Met. Thank you all ❤

Yesterday, classes 1C, 1E and 2C had a wonderful experience at St Fagans National Museum of History learning all about life in the Celtic and Victorian Ages. It's wonderful to see the children enjoying themselves while learning about Welsh history in such a lively way. The photos (below) are certainly evidence of that enjoyment!

As we look forward to the rest of the term, please remember about our Summer Fair which will be held on Friday June 19. Another lovely community event for us to enjoy together!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Gwener / Friday 26.06.26**
Gwasanaeth Dosbarth Derbyn
*Derbyn Class Assembly*

**Gwener / Friday 19.06.26**
Ffair Haf
*Summer Fayre*
3:30-5:30pm

**Dydd Mawrth 23.06.26**
Mabolgampau Meithrin
*Meithrin Sports Day*
9.45am / 1.30pm

**Gwener / Friday 26.06.06**
2E a 5C Techniquest

**Mercher / Weds 15.07.26**
Gwasanaeth Ymadael B6
Y6 Leavers' Assembly

**Dydd Mercher 15.07.26 @ 1pm**
Barbaciw y Feithrin
*Meithrin BBQ*

**Dydd Iau 16.07.26**
Taith hwyl B6
Year 6 Fun Trip

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*



Capteiniaid Chwaraeon y Llysoedd 2025-26 / Our 2025-26 House Sports Captains

Llongyfarchiadau Llys Garw ar ennill Mabolgampau 2026!

Congratulations to Llys Garth for winning the 2026 Mabolgampau!



Capteiniaid Llys Garw



Dosbarthiadau 1C, 1E a 2C ar daith llawn hwyl i Sain Ffagan

1C, 1E a 2C having fun on their visit to St Fagans










# <u>CRhA / *PTA*</u>

**Diolch** i'r GRhA am eich gwaith caled!
*A big **diolch** to our fantastic PTA!*

## <u>Rags to Riches</u>

Casgliad dillad ail-law
Pre-loved clothes collection

Dydd Gwener - Friday: 26.06.26





Cyrsiau Beicio Gwyliau Ysgol
Dysgu sut i Reidio
+
Lefel 1+2 Ar y Ffordd
I archebu lle, ewch i: link.wales/yc


School Holiday Cycling Courses
Learn to Ride
+
Level 1+2 On the Road
To book a place, go to: link.wales/yc



Cymro / Cymraes yr Wythnos

**Welsh learners of the week**






Dysgwyr yr Wythnos

**Learners of the week**

## Hawl y Mis - Mis Mehefin




## Right of the Month - June




### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.

## Bws Beics

Mehefin 12
Mehefin 19
Mehefin 26
Gorffennaf 3
Gorffennaf 10

Croeso i aelodau newydd bob amser!

*New members always welcome!*

## Bike Bus

June 12
June 19
June 26
July 3
July 10



### Clybiau ar ôl ysgol

Bydd staff yn cynnig y clybiau canlynol ar ôl ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 3-6. Diolch i'r staff i gyd am wirfoddoli.

Dydd Mercher –Celfyddydau Mynegiannol
Dydd Iau – Clwb Chwaraeon

**Clwb ola'r tymor – 02.07.26**

### After school clubs

Staff offer the following after school clubs to pupils in Years 3-6. Thank you to all the staff who volunteer.

Wednesday – Expressive Arts
Thursday – Sports Club

**Final club of the term – 02.07.26**